

ffotogallery

Cyflwyniad i'r Rôl: Cynhyrchydd Creadigol



Pwy ydych chi?

Rydych yn berson creadigol, sy'n frwdfrydig iawn ynghylch y celfyddydau gweledol a'u potensial i ennyn diddordeb pobl o bob math o gefndiroedd. Rydych yn croesawu'r cyfle i ddod yn rhan o dîm bychan, dynamig ac uchelgeisiol a chyfrannu at y broses o gynllunio a darparu prosiectau creadigol.

Rydych wedi cychwyn eich practis creadigol neu artistig eich hun, a byddwch yn dod â syniadau a safbwyntiau newydd i'n gwaith sy'n adlewyrchu eich profiadau o wneud hynny. Mae gennych 2 – 5 mlynedd o brofiad; efallai bod hyn wedi bod yn gysylltiedig â'ch taith artistig, efallai ddim, ond mae rhai sgiliau trosglwyddiadau a phrofiadau y gallwch eu defnyddio yn y rôl hon.

Rydych yn dod ag agwedd bositif gyda chi ynghyd â pharodrwydd i ddysgu a datblygu yn y rôl hon. Rydych wedi ymrwmo i ehangu mynediad, cynhwysiad ac amrywiaeth yn y celfyddydau, ac rydych yn mwynhau cydweithio gyda phobl eraill, sy'n cynnwys artistiaid, addysgwyr, cynulleidfaoedd a phartneriaid prosiect.

Rydych yn fodlon teithio i Gaerdydd i weithio neu i ail leoli, os oes raid, a byddwch yn derbyn cefnogaeth i wneud hynny. Neu efallai bod gennych anghenion arbennig sydd angen cymorth ychwanegol ac sy'n gofyn addasu'r amgylchedd gwaith a'r trefniadau gwaith arferol; bydd Ffotogallery yn ymdrechu i ymdrin ag unrhyw anghenion sydd gennych, o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael.

Pwy ydym ni?

O'n dyddiau cyntaf dros ddeugain mlynedd yn ôl, mae Ffotogallery wedi credu yng ngrym y celfyddydau gweledol i weddnewid bywydau pobl, p'un a ydynt yn ffotograffwyr ac artistiaid uchelgeisiol sydd eisiau mynegi eu hunain drwy eu gwaith, neu'n aelodau o gynulleidfa sy'n cael cipolwg newydd ar y byd drwy'r delweddau y maen nhw'n dod ar eu traws mewn arddangosfa, mewn llyfr neu ar-lein.

Ein gweledigaeth yw y bydd pawb yn gallu mwynhau profiadau gweddnewidiol drwy ffotograffiaeth a'i chyfryngau cysylltiedig. Mae'n bwysig i ni bod ein harddangosfeydd a'n digwyddiadau a'n gweithgareddau cyhoeddi, dysgu ac ymgysylltu'n cysylltu â chymunedau a chymdogaethau sy'n ddiwylliannol amrywiol yng Nghaerdydd a Chymru, gan sicrhau bod yr holl drigolion yn gallu cyfrannu at ein llwyddiant ac elwa ohono. Drwy ein cynnig ar-lein estynedig a thrwy gymryd arddangosfeydd Ffotogallery ar daith, drwy ein cyhoeddiadau a thrwy bedair gŵyl flaenorol Diffusion: Gŵyl Ffotograffiaeth Ryngwladol Caerdydd, mae estyniad ac effaith ein gwaith yn ymestyn ar draws y glôb.

Ym mis Medi 2019 aethom ati i symud i'n cartref presennol yng Nghaerdydd, sydd yn ystafell beiriant ac yn ystafell arddangos; man lle cynhyrchir syniadau newydd a phrosiectau creadigol ac hefyd leoliad croesawgar lle gall pobl ddod wyneb yn wyneb â ffotograffiaeth gyfoes a chael eu hysbrydoli. Yn ogystal ag oriel a gofod digwyddiadau rhagorol, mae'r ganolfan newydd yn cynnwys ystafell adnoddau/llyfrgell sy'n agored i'r cyhoedd, stiwdio greadigol a siop lyfrau fach. Mae ein gwefan a'n digwyddiadau cymdeithasu, ynghyd â'n gweithgareddau digidol estynedig, yn ein galluogi i rannu ein harddangosfeydd, prosiectau, archifau a gwaith cyfranogol gyda chynulleidfa fyd-eang ehangach, yn ogystal â bod yn llwyfan i farchnata a gwerthu llyfrau a gwasanaethau.

Mae holl waith Ffotogallery ar gyfer y tair blynedd nesaf wedi ei seilio o amgylch y thema *Nifer o Leisiau, Un Genedl*, a'i brif amcanion yw hybu mwy o amrywiaeth ddiwylliannol, mynediad a chynhwysiad, dysgu gydol oes, arloesi a rhagoriaeth. Mae Ffotogallery yn parhau i weithio'n galed i ymdrin ag anghydraddoldeb cymdeithasol; rydym yn gwerthfawrogi'r rôl y gall pobl o bob rhan o'n cymdeithas ei chwarae i greu sîn gelfyddydau egniol. Gwyddom fod y celfyddydau ym Mhrydain, ac yng Nghymru yn arbennig, yn mynd i fod yn gryfach, yn fwy cyffrous ac yn berthnasol i fwy o bobl os byddwn yn croesawu amrywiaeth. Rydym yn edrych ar yr hyn a wnawn a sut yr ydym yn gweithio drwy lygaid ffres yn gyson, gan wybod y bydd hynny'n helpu i adfywio ein dull ac ehangu mynediad i'r celfyddydau.

I ddarllen rhagor am waith Ffotogallery, ewch i'r gwefannau dilynol:

www.fffotogallery.org

www.diffusionfestival.org

<https://www.theplaceicallhome.org/>

Beth yw cynhyrchydd creadigol?

Mae cynhyrchydd creadigol yn rhywun sy'n cymryd syniad addawol am brosiect ac yn ei droi'n realiti. Mae'r rôl yn cynnwys cynhyrchu syniadau newydd a chreu'r partneriaethau cywir a'r trefniadau tîm addas i gymryd y prosiect yr holl ffordd i'r cynhyrchiad terfynol. Mae hynny'n gofyn creadigedd, dyfeisgarwch ac agwedd ymarferol tuag at bob cam o'r broses gynhyrchu.

Beth fydd y rôl yn ei gynnwys, dros y deuddeg mis?

Byddwch yn aelod cyfartal o dîm rhaglennu creadigol Ffotogallery, yn cyfrannu at wneud penderfyniadau artistig, ac hefyd yn cymryd rhan ymhob agwedd o gynllunio a darparu arddangosfeydd, digwyddiadau a gweithgareddau ymgysylltu cysylltiedig, deunydd wedi'i argraffu a chynnwys digidol.

Cewch y cyfle i ddyfeisio ac arwain arddangosfa, prosiect neu ddigwyddiad yn Ffotogallery yn Haf 2021, gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr ac aelodau eraill o Dîm Ffotogallery.

Byddwch yn aelod allweddol o'r tîm creadigol sy'n cynllunio a darparu'r bumed o'r gwyliau Diffusion: Gŵyl Ffotograffiaeth Ryngwladol Caerdydd yn hydref 2021. Ochr yn ochr ag arddangosfeydd ffotograffig mwy confensiynol, mae'r ŵyl yn cynnwys sinema ymgolli 360 gradd gyda pherfformiad byw, realiti rhithwir a gosodweithiau digidol rhyngweithiol, portreadau ffotograffig 3D a cherddoriaeth, fideo a thafluniad.

Sut fydd Covid-19 yn effeithio ar y rôl?

Rydym yn byw mewn cyfnod ansicr o ran y cyfyngiadau a allai gael eu rhoi ar deithio, cynulliadau cyhoeddus a mynediad i'n gweithle. Parhaodd y tîm i weithio yn ystod y cyfnod clo gan olygu y gallem fod yn hyblyg yn y ffordd yr oedd ein gwaith wedi'i strwythuro ac y gallem gynnal cydbwysedd cartref/gweithle o ran ein hamserlen. Mae mesurau newydd yn eu lle erbyn hyn sydd wedi eu llunio i sicrhau hyder a lles y staff a'r ymwelwyr, ac mae eu hiechyd a'u diogelwch hwy'n parhau i fod o'r pwysigrwydd mwyaf i ni. O ganlyniad i'r sefyllfa sy'n newid yn barhaol, byddwn yn trafod trefniadau gwaith priodol i chi yng ngyd-destun eich rôl a'r canllawiau iechyd cyhoeddus.

Pa gymorth all Ffotogallery ei gynnig i mi?

Byddwn yn eich helpu i dyfu yn y rôl, ac i gyrraedd eich potensial llawn drwy roi hyfforddiant a mentoriaeth i chi, drwy gynnig y cyfle i chi ehangu eich gwybodaeth a'ch profiad, a thrwy eich helpu i gynllunio eich camau nesaf o ran cynnydd gyrfaol.

Byddwch yn derbyn cymorth parhaus gan reolwr llinell, ac yn derbyn adborth a chynghor i ddelio ag artistiaid a phartneriaid, cadw cyllideb, logisteg a thrafod adnoddau.

Bydd y Cyfarwyddwr yn rhoi gofal bugeiliol a chynghor gyrfaol i chi, ac yn eich cyflwyno i gysylltiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Cewch gyfle i gynrychioli Ffotogallery mewn digwyddiadau rhwydweithio a chynadleddau a chewch ymuno â thrafodaethau gyda phartneriaid am drefniadau posibl i gydweithio. Cewch eich cyflwyno i sîn gelfyddydau Caerdydd a Chymru, ac amrywiol rwydweithiau celfyddydol a diwylliannol lleol a chenedlaethol.

**Disgrifiad o'r Swydd: Cynhyrchydd Creadigol (35 awr yr wythnos/llawn amser)
Contract 12 Mis Tymor Sefydlog**

Golwg gyffredinol ar y rôl

Mae Ffotogallery yn cychwyn ar raglen ddatblygu uchelgeisiol dros y 18 mis nesaf sy'n cynnwys darparu pumed gŵyl eilflwydd Diffusion: Gŵyl Ffotograffiaeth Ryngwladol Caerdydd yn hydref 2021 a chyfres o arddangosfeydd, ymgysylltiad â'r cyhoedd a dysgu, preswylad artist a phrosiectau cyhoeddi gyda phartneriaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Bydd y Cynhyrchydd Creadigol yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o gynllunio a darparu'r rhaglen honno.

Perthnasoedd Gwaith

Bydd y Cynhyrchydd Creadigol yn aelod o dîm craidd Ffotogallery, sy'n cynnwys David Drake, Cyfarwyddwr, Alex Butler, Rheolwr Gweithrediadau, Marc Arkless, Rheolwr Arddangosiadau, a Liz Hewson, Cydlynnydd Cynhyrchu. Rydym ar fin penodi Rheolwr Ymgysylltu newydd.

Rydym yn cynnal cynllun interniaeth gyda thâl yn rheolaidd, yn ogystal â defnyddio cronfa o weithwyr llawrydd a chyflenwyr i ddarparu prosiectau ac agweddau penodol o'n rhaglen. Gweithio hyblyg a chydweithredol yw'r norm o ystyried maint gweddol fychan ein sefydliad a'r ffaith fod angen llenwi absenoldebau pan fydd rhywun ar wyliau neu'n sâl.

Bydd y Cynhyrchydd Creadigol dan reolaeth llinell Alex Butler, ond bydd yn gweithio'n agos â staff a phartneriaid eraill Ffotogallery fel y bo'n briodol i'r rôl a'r cyfrifoldebau.

Fel un o'r garfan o gymrodorion eleni o dan raglen Bwrsariaethau Creadigol Weston Jerwood 2020, bydd y Cynhyrchydd Creadigol yn derbyn cymorth pellach drwy ddatblygiad proffesiynol, yn derbyn mentoriaeth ac yn gallu defnyddio rhwydwaith o gymheiriaid a chyn-fyfyrrwyr sy'n gweithio yn y sector celfyddydau a diwylliannol ledled y DU.

Cyflog/Oriau/Gwyliau

Y cyflog yw £19,500, am 35 awr yr wythnos dros 5 diwrnod. Oriau agor busnes Ffotogallery yw 9.30am – 5.30pm o Ddydd Llun i Ddydd Sadwrn. Bydd diwrnodau gwaith pob aelod o staff wedi eu trefnu yn unol â hynny. Pan fydd angen gweithio y tu allan i oriau, er enghraifft pan mae ymrwymadau gyda'r nos ac ar y penwythnos, caniateir amser i ffwrdd o'r gwaith yn gyfnewid am hynny. Mae gan Ffotogallery gynllun pensiwn cwmni yn unol â gofynion y Llywodraeth. Cronnir hawliad gwyliau ar sail 2 ddiwrnod am bob mis a weithir, ynghyd â gwyliau cyhoeddus.

Prif ddyletswyddau/Cyfrifoldebau

- Cyfranogi yn y gwaith o gynllunio a darparu arddangosfeydd, digwyddiadau, prosiectau a gweithgareddau dysgu ac ymgysylltu cysylltiedig
- Ymchwilio a datblygu prosiect creadigol neu arddangosfa newydd, ac arwain y ddarpariaeth gyda chymorth gan dîm Ffotogallery
- Cysylltu ag artistiaid, partneriaid, gweithwyr llawrydd a chyflenwyr, yn ôl y gofyn, wrth gynllunio a darparu'r rhaglen
- Cynhyrchu cynnwys creadigol ar gyfer platfformau ar-lein a gweithgareddau ac adnoddau dysgu ac ymgysylltu cysylltiedig
- Darparu teithiau wedi'u tywys i ymwelwyr a chyfrannu at ein darpariaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau i'r cyhoedd
- Cymryd rhan mewn cyfleoedd hyfforddi a datblygu proffesiynol, fel y bo'r gofyn
- Gwneud gweithgareddau ychwanegol penodol, fel sy'n ofynnol gan y rôl, ar gais y Cyfarwyddwr

Manylion y Person

Mae eich profiad mewn bywyd, eich brwdfrydedd a'ch cariad at y celfyddydau yn bwysicach i ni na chymwysterau ffurfiol a'r nifer o swyddi rydych wedi eu cael ym myd celfyddydau yn y gorffennol.

Yr hyn a ofynnwn yw eich bod yn gallu dod â syniadau a safbwyntiau newydd i'n gwaith, gan adlewyrchu eich taith artistig a'ch 2 – 5 mlynedd o brofiad gwaith. Gallai eich profiad artistig neu greadigol gynnwys prosiectau rydych wedi eu cychwyn eich hun neu'r rheiny rydych wedi gweithio arnynt gyda phobl eraill mewn lleoliad sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau. Pan ddywedwn y geiriau 'profiad gwaith' rydyn ni'n golygu eich bod wedi dysgu gwybodaeth a sgiliau trosglwyddadwy sy'n dangos eich bod yn gallu gwneud i'ch syniadau gwreiddiol ddwyn ffrwyth, a'ch bod yn dangos dyfeisgarwch, creadigedd a'r gallu i weithio'n dda mewn tîm.

Rydych yng nghampau cynnar eich gyrfa yn y celfyddydau, ac efallai eich bod wedi wynebu rhwystrau wrth geisio canfod gwaith gyda thâl yn y celfyddydau.

Rydych yn croesawu'r cyfle i weithio i sefydliad cefnogol sydd wedi ymrwymo i fod yn gynhwysol ac amrywiol, ac i fod yn rhan o rwydwaith Prydeinig ehangach, a derbyn cyngor am ddatblygiad gyrfaol, hyfforddiant a mentoriaeth.

Rydych yn teimlo'n gyffrous ynglŷn â'r syniad o chwarae rhan mewn creu sector celfyddydau a diwylliannol mwy cyfartal a chynrychiadol yn y DU, a chyfrannu at y prosesau o newid y mae angen mor argyfyngus amdanynt.



Rhaglen Ysgoloriaethau Creadigol Weston Jerwood 2020-22

Mae'r swydd hon yn rhan o raglen ehangach Ysgoloriaethau Creadigol Weston Jerwood, sy'n cael ei chynllunio a'i darparu gan [Jerwood Arts](#).

Os byddai'n well gennych chi wrando ar y testun hwn, cliciwch [yma](#).

Os byddai'n well gennych chi weld fersiwn Hawdd i'w Ddarllen o'r testun hwn, cliciwch [yma](#).

Pwy ydym ni a dros beth rydym ni'n sefyll?

Sefydliad annibynnol sy'n noddi'r celfyddydau yw Jerwood Arts, ac rydym yn gweithio gydag artistiaid, curaduron a chynhyrchwyr sydd ar ddechrau'u gyfaoedd i'w helpu i achub ar gyfleoedd, cydweithio ag artistiaid eraill, a dod â syniadau a phrosiectau'n fyw. Weithiau byddwn yn gweithio'n uniongyrchol gydag artistiaid, ac weithiau byddwn yn gweithio gyda sefydliadau.

Ynghyd â sefydliadau fel yr un rydych chi'n bwriadu gwneud cais iddo, rydym hefyd yn ceisio gwneud y sector celfyddydau a diwylliant yn sector mwy cyfartal a chynhwysol i weithio ynddo. Ceir cyfoeth o wybodaeth, data ac ymchwil academaidd am y diffyg amrywiaeth yn y celfyddydau, ac mae artistiaid a gweithwyr ym maes y celfyddydau yn dal i gael eu cau allan ar sail eu dosbarth, ethnigrwydd, anabledd, rhywedd ac elfennau eraill sy'n ymwneud â'u cefndir, eu hunaniaeth neu'u profiad. Rydym yn credu bod y system wedi torri, ac mai [camau gweithredu cadarnhaol](#) wedi'u cyfuno â gwaith dwys gan sefydliadau yw'r unig ffordd i newid hyn. Am y rheswm hwn, rhaglen i bobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn unig yw rhaglen Ysgoloriaethau Creadigol Weston Jerwood. Mae hi hefyd yn un o raglenni Trawsnewid Arweinyddiaeth Arts Council England, sy'n ceisio meithrin arweinwyr y dyfodol ym maes y celfyddydau.

Beth yw cefndir economaidd-gymdeithasol is?

Os ydych chi'n dod o gefndir economaidd-gymdeithasol is, mae'n go debygol y byddwch chi wedi mynd i un o ysgolion y wladwriaeth. Efallai y byddwch chi wedi cael prydau ysgol am

ddim yn blentyn, neu efallai fod incwm eich aelwyd yn ansefydlog pan oeddech chi'n tyfu. Efallai ichi gael eich magu yn y system gofal, eich bod yn ofalwr ifanc ers talwm, neu mai chi yw'r cyntaf yn eich teulu i fynd i'r brifysgol. Mae dosbarth gweithiol, neu ddosbarth buddaliadau, yn dermau eraill y gallai pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is uniaethu â nhw. Os ydych chi o gefndir economaidd-gymdeithasol is, mae'n fwy tebygol y byddwch chi'n wynebu rhwystrau mewn cymdeithas – rhwystrau sy'n plethu yn ei gilydd – gan brofi hiliaeth, gwahaniaethu ar sail abledd, neu fathau eraill o wahaniaethu. Mae rhagor o wybodaeth am amrywiaeth economaidd-gymdeithasol a'r camau rydym ni'n galw am eu rhoi ar waith i'w gweld yn y [Pecyn Cymorth](#) hwn.

Sut mae'r rhaglen yn gweithio

Mae'r rhaglen yn ariannu swyddi cyflogedig blwyddyn o hyd mewn sefydliadau ym maes y celfyddydau a diwylliant, ynghyd â rhoi arweiniad proffesiynol a bugeiliol ehangach i bobl pan fydd angen hynny. Mae'n ceisio gofyn cwestiynau a chael gwared ar y rhwystrau sy'n atal pobl rhag dod yn rhan o'r sector, gan alluogi pobl i ddatblygu gyrfaoedd yn y celfyddydau gyda hyder a chefnogaeth. Rhwng 2020 a 2022, byddwn yn ariannu 50 o swyddi mewn amryw o ffurfiau celfyddydol – fe allwch chi ddarllen am y rhestr lawn o gyfleoedd [fan hyn](#).

Beth fydd y rhaglen yn ei roi ichi ar wahân i'r swydd?

- **Rhwydwaith y Cymrodyr:** Os cewch chi'r swydd hon, byddwch chi'n dod yn rhan o rwydwaith gyda 49 o artistiaid, curaduron a chynhyrchwyr eraill o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is. Rhwydwaith o 'Gymrodyr' yw ein henw ar y rhwydwaith hwn. Byddwch chi i gyd ar ddechrau'ch gyrfaoedd fel artistiaid a gweithwyr creadigol proffesiynol, ac yn cychwyn swyddi newydd o fewn tri mis i'ch gilydd. Mae'n debygol y byddwch chi wedi wynebu rhwystrau tebyg, sy'n plethu yn ei gilydd, wrth geisio gweithio yn y celfyddydau o'r blaen. Gall ymwneud â sefydliadau ac arfer â chyd-destunau proffesiynol newydd fod yn brofiad anodd, ond fyddwch chi ddim ar eich pen eich hun. Yn y gorffennol mae'r rhwydwaith wedi arwain at greu ffrindiau, cydweithio artistig, sefydlu cwmnïau theatr, ac ymdeimlad o gymuned.
- **Datblygu Proffesiynol:** Bydd y cymrodyr yn ymuno â'r rhaglen Datblygu Proffesiynol sy'n cael ei harwain gan [people make it work](#). Bydd y rhaglen hon yn rhoi cefnogaeth a hyfforddiant ichi, a byddwch chi'n ei chreu ar y cyd. Mae hyn yn golygu y byddwn yn teilwra'r cynnwys yn unol â'ch anghenion, eich heriau a'ch uchelgeisiau chi, ac yn gweithio gyda chi i sicrhau eich bod yn dysgu'r union bethau y mae eu hangen arnoch i gefnogi'ch datblygiad proffesiynol. Un o brif nodweddion hyn fydd sefydlu Rhwydwaith y Cymrodyr er mwyn rhannu gwersi sy'n cael eu dysgu. Bydd y rhaglen hon yn cael ei darparu ar-lein, a gobeithiwn ar ei diwedd y gallwn gynnal digwyddiad a fydd yn dod â'r

Cymrodyr ynghyd mewn un lle. Bydd y rhaglen yn cael ei chynnal drwy gyfres o gyfarfodydd digidol byw, a hynny'n eich galluogi i ddod i adnabod eich gilydd, cyfarfod â chymrodyr y gorffennol a dysgu ganddynt, a rhannu'ch profiad o ddechrau yn eich swyddi newydd. Bydd y sesiynau hyn yn ymateb i'ch anghenion chi er mwyn datblygu'ch sgiliau, ac rydym yn dychmygu y gallai rhai o'r gweithdai roi sylw i rwydweithio a chynnydd gyrfa, hyfforddi fel gweithwyr llawrydd, siarad cyhoeddus, llunio CV, ac ymwneud â sefydliadau.

- **Mentor:** Byddwch yn cael mentor (o'r tu allan i'ch Sefydliad Cynnal) i weithio gyda chi yn ystod eich Cymrodoriaeth. Chi'n llwyr sydd i ddewis pwy fydd eich mentor, a byddwn ni'n talu am eu hamser. Byddwch chi hefyd yn cael arweiniad gan [Arts Emergency](#) sydd â phrofiad sylweddol i'ch helpu i ddod o hyd i fentor ac i fanteisio i'r eithaf arno ef neu arni hi.
- **Cynnydd:** Drwy gydol y rhaglen, bydd eich Sefydliad Cynnal a Jerwood Arts yn eich cefnogi ac yn eich helpu i benderfynu ar eich camau nesaf pan ddaw'r flwyddyn i ben. Gallai hyn fod yn hyfforddiant, yn gefnogaeth i chwilio am swyddi a gwneud ceisiadau am gyllid, yn gyflwyniad i raglenni a chyllidwyr, neu'n ddim ond cyngor ac anogaeth. Gall Jerwood Arts roi £1,000 o gyllid ychwanegol yn benodol i gefnogi'ch prosiectau creadigol, eich gwaith ymchwil a'ch cyweithiau eich hun wrth i'ch cyfnod ar y rhaglen ddirwyn i ben
- **Adborth:** Rydym wedi cynnal y rhaglen hon dair gwaith dros y degawd diwethaf (fe allwch chi glywed am brofiadau pobol eraill a fu'n rhan o'r rhaglen [fan hyn](#)). Bob tro, byddwn yn dysgu mwy am yr hyn sy'n gweithio, a'r pethau nad ydynt yn gweithio, felly byddwch chi'n cael eich annog i siarad â Jerwood Arts a'ch Sefydliad Cynnal ill dau os oes unrhyw beth yr hoffech chi inni fyfyrto yn ei gylch, ei ddatblygu, neu ei newid i wella'ch profiad.

Os ydych chi'n hoffi sut mae'r swydd yn swnio, ond bod gennych chi gwestiynau am raglen Ysgoloriaethau Creadigol Weston Jerwood yn gyffredinol, mae croeso ichi gysylltu'n gyfrinachol â Sarah Gibbon, Rheolwr Prosiect yn Jerwood Arts, drwy anfon e-bost at sarahg@jerwoodarts.org neu drwy ffonio 07944 903989, a hynny cyn gwneud cais.

Cofiwch, os yw'ch cwestiynau'n ymwneud yn benodol â'r swydd dan sylw neu'r broses ymgeisio, dylech gysylltu'n uniongyrchol â'r sefydliad rydych chi'n gwneud cais iddo. Dylai'r pecyn swydd roi gwybod ichi â phwy y dylech gysylltu.

**JERWOOD
ARTS**



Supported using public funding by
**ARTS COUNCIL
ENGLAND**

W
Garfield Weston
FOUNDATION

Art Fund_



**ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED**



**BRITISH
COUNCIL**

**PRS
Foundation**



Mae rhaglen Ysgoloriaethau Creadigol Weston Jerwood 2020-2022 wedi'i dylunio a'i chynhyrchu gan Jerwood Arts. Caiff ei hariannu a'i chefnogi gan Gronfa Trawsnewid Arweinyddiaeth Arts Council England, Sefydliad Garfield Weston, y Gronfa Gelf, Cyngor Celfyddydau Cymru, Creative Scotland, British Council, Jerwood Arts a Sefydliad PRS.